OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2621

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ond nid ydynt yn gymwys o ran adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Tachwedd 2013.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "adeilad ynni a eithrir" *("excepted energy building")* yr un ystyr ag yn Erthygl 1(3) a'r Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(**1**).

(**1**) O.S. 2009/3019.